

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)      William Penri Jones      Greta Hughes      Thomas Victor Jones  
D Andrew Parry              William Roger Jones      Pat Humphreys (Clerc)

**Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

### **1. Ymddiheuriadau**

Dim.

### **2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim.

### **3. Cofnodion Pwyllgor 25/01/2021**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: William Penri Jones      Eilio: Andrew Parry

### **4. Unrhyw Fater Brys**

Dim.

### **5. Llwybrau**

#### **Tendar – Torri Llwybrau**

Derbyniwyd dau ddyfynbris drwy'r post mewn ymateb i'r hysbyseb Tendar i gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus, mynwent a thiroedd y gymuned i flynyddoedd ariannol 2021-22, 2022-23 ac 2023-24. Aethpwyd drwy'r dyfynbrisiau a'u cymharu gyda prisiau y llynedd.

Penderfyniad: Cynnig cytundeb y llwybrau cyhoeddus a'r fynwent i J A Pozzi a cynnig cytundeb y cae chwarae a cae Pentre Llan i Rhys Jones am y dair blynedd nesaf a'r clerc i'w hysbysu drwy lythyr.

Cynnig: William Penri Jones      Eilio: Andrew Parry

#### **E-bost Iwan Hughes**

Derbyniwyd e-bost gan Iwan Hughes ynglŷn â torri llwybrau'r mynydd cyn yr haf eleni. Nid yw'r llwybrau yma ar y rhestr llwybrau'r Cyngor Cymuned i gael eu torri'n rheolaidd ond gan eu bod bron a cau gyda thyfiant mae'n gofyn os oes posibl eu torri eleni.

Penderfyniad: y cadeirydd i ofyn i J A Pozzi i dorri'r llwybrau yma am eleni.

Cynnig: William Penri Jones      Eilio: Thomas Victor Jones

Diolchwyd i'r cadeirydd am yrru mapiau i'r aelodau drwy e-byst, maent yn dangos yn glir lle mae llwybrau'r gymuned ac mae modd 'zoomio' i fewn i weld y llwybrau yn glir. Mapiau a gafwyd gan Gyngor Gwynedd ydynt ac yn rhai mawr sef maint A0/A1 felly byddai modd gofyn iddynt am y mapiau mewn maint llai er mwyn eu harddangos yn y pentref.

Mae modd hefyd cael hyd i'r llwybrau yma ar google earth.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

## **6. Wal Mynwent Llanbedrog (cwyn Mr Pollard) – Dyfynbris Gwydion.**

Wedi i'r cadeirydd fod allan ar y safle yn gweld y wal eto yn diweddar sylweddolodd ei fod wedi cael y darn anghywir felly mae o wedi ffonio Mr Pollard i wneud yn siwr ei fod yn gwybod yn iawn pa ddarn o'r wal mae Mr Pollard yn sôn amdano ac mae o wedi cadarnhau mai wal gefn y fynwent sydd dan sylw. Mae'r cadeirydd wedi cael 2 ddyfynbris i drwsio'r wal a'r ddau reit agos mewn pris a gan fod yna fwy o waith i drwsio'r darn anghywir o'r wal fel yr oedd y cadeirydd wedi ei ddangos i'r contractwyr yn wreiddiol na'r darn sydd dan sylw mi fydd y prisiau reit debyg. Cadarnhaodd William Roger Jones ei fod yntau wedi bod yno ac wedi siarad hefo Mrs Pollard ac mai dim ond ail osod y cerrig ar ben y wal a twtio ychydig sydd ei angen a'i fod yn cynnig i Gwydion fynd yno i drwsio'r wal. Mae hefyd angen tynnu yr eiddew sydd wedi tyfu i fewn i'r wal.

Penderfyniad: y cadeirydd i ofyn i Gwydion fynd i drwsio'r wal a tynnu'r eiddew.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: Thomas Victor Jones

## **7. Y Fynwent**

### **Cyfrif Nat West**

Cafodd y clerc alwad ffôn gan aelod o staff Nat West Pwllheli a derbyniwyd llythyr gan Nat West yn dweud fod y 3 sydd yn arwyddo sieciau ar y cyfrif yma wedi marw ac am nad oedd symudiad wedi bod ar y cyfrif ers blyneddodded bod perig iddo fynd i 'dormant state' ac os y buasai hyn yn digwydd ei fod yn andros o annodd ei ail sefydlu a'i dynnu allan o 'dormant state'. Gofynnodd i'r Cyngor Cymuned ei drafod yn eu pwyllgor nesaf a bod rhaid penderfynnu ar 3 enw i arwyddo ar y cyfrif yn lle yr enwau sydd arno rwan ac y buasai yn gyrru'r ffurfleni angenrheidiol i'r clerc ar unwaith.

Penderfyniad: y clerc i lenwi'r ffurflen i fewn a rhoi enw y clerc, y cadeirydd ac Andrew Parry fel y 3 i arwyddo ar y cyfrif.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: William Roger Jones

Cyfrif yw hwn sydd wedi ei agor gyda arian a adawyd i'r Cyngor Cymuned mewn ewyllys y diweddar Mrs Harris i edrach ar ôl bedd ei thad a'i mham a hithau i roi blodau arnynt a beth bynnag arall oedd angen ei wneud yn yr hen fynwent. Mae'r cadeirydd wedi cael hyd i gopi o'r ewyllys ac am anfon copi i bawb ac nid oes dim byd yn sôn am roi blodau dim ond i edrych ar ôl y fynwent a'i chadw yn daclus felly fe fyddai modd defnyddio'r arian yma ar gyfer gwneud hynny yn lle defnyddio yr arian o'r cyfrif cyffredin.

Penderfyniad: y cadeirydd i anfon copi o'r ewyllys i'r aelodau a'i roi ar agenda mis nesaf.

### **Cynllunio i'r dyfodol**

Mae'r cadeirydd wedi anfon dogfennau yn ymwneud â'r cais cynllunio gwreiddiol a roddwyd i fewn i weddill yr aelodau ond bellach mae o wedi rhedeg allan gan fod amod ar y cais yn dweud bod rhaid cychwyn y datblygiad o fewn 5 mlynedd i ddyddiad y caniatad ac yn anffodus mae'r amser yma wedi pasio. Felly fydd rhaid ail gyflwyno cais cynllunio ar ei gyfer gan ddefnyddio yr un wybodaeth a wnaethpwyd ar y cais gwreiddiol. Cyn cyflwyno cais cynllunio mae'n rhaid ail enwi y 'trustees' gan nad oes neb yn siwr iawn pwy sydd i lawr fel 'trustees'. Dywedodd y clerc y buasai'n chwilio drwy'r dogfennau a basiwyd ymlaen iddi gan y cyn glerc i weld os oes ffeil ar y fynwent newydd gyda mwy o fanylion yn y fan honno.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Gofynwyd i'r clerc hefyd i gysylltu gyda'r cyfreithiwr Bryn Martin i ofyn os yw gweithredoedd y fynwent newydd ganddo.

### **8. Cae Chwarae**

#### **Trwsio'r ffens – Ceisiadau am y swydd**

Ar ôl hysbysebu'r swydd gweithiwr achlysurol i wneud mân waith atgyweirio o gwmpas yr ardal cafwyd dau yn dangos diddordeb ac fe ddarllennodd y clerc y manylion allan i'r aelodau.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu yn dweud bod rhaid iddynt fod yn hunangyflogedig ac mai £12 yr awr mae'r Cyngor yn fodlon dalu iddynt ac i bwysleisio mai gwaith achlysurol fydd hyn bob tro mae angen gwneud rhywbeth ac nid swydd llawn amser barhaol.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Greta Hughes

### **9. Oriau ychwanegol y cyn glerc (87 awr)**

Cafodd y cadeirydd farn cyfreithiwr a cyfrifydd ar y mater treth incwm ac nid oes hawl gan y Cyngor i ofyn am weld 'self-assessment' y cyn glerc ond mae hi wedi cadarnhau wrth y cadeirydd ei bod hi a'i gŵr yn gwneud 'self-assessment' hefo'i gilydd. Fe wnaeth y cyfrifydd ddweud hefyd mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd ei rhoi ar sustem PAYE pan gafodd y swydd fel y maent wedi gwneud hefo'r clerc presennol ac oherwydd na chafodd hynny ei wneud mae'r cyn glerc yn gyfrifol am ei threth incwm ei hun. 'Roedd y gwaith ychwanegol wedi cael ei wneud ym mis Awst sef delio gyda e-byst Clarie Russell Griffiths a'r cyfarfod brys gan nad oes pwyllgor ym mis Awst fel arfer. Pwysleisiodd y cyn glerc hefyd nad oedd wedi cymeryd ei gwyliau yn ystod y cyfnod yma fel yr oedd hawl ganddi i wneud neu cael yr arian yn neu lle ond dywedodd Greta Hughes ei bod yn cofio i'r cyn glerc gymeryd gwyliau ac iddynt orfod newid dyddiad un cyfarfod oherwydd hynny. Cafwyd cynnig gan William Roger Jones i dalu'r cyn glerc am ei gwaith a dod ar mater i ben a cafwydd gwelliant ar y cynnig gan Greta Hughes i beidio ei thalu gan fod na ddipyn o ddyletswyddau heb gael ei wneud ganddi yn dilyn y pwyllgorau. Cynnigiodd William Penri Jones i Greta Hughes wneud rhestr o'r holl waith na chafodd ei wneud gan y cyn glerc erbyn mis nesaf. Gofynnodd Thomas Victor Jones os oes rheidrwydd i'r Cyngor ei thalu ac os nad yw'r Cyngor yn ei thalu beth fydd y sefyllfa yn gyfreithiol.

Penderfyniad: Greta Hughes i fynd drwy cofnodion o mis Ionawr 2020 i mis Awst 2020 a gwneud rhestr o'r holl waith na chafodd ei wneud yn ystod y cyfnod hwnnw gan y cyn glerc a'r cadeirydd i yrru copi o'r 'timesheets' i'r aelodau erbyn mis nesaf er mwyn gwneud penderfyniad a cael diwedd ar y mater mis nesaf

### **10. Seddi Gwag**

Derbyniwyd e-bost gan Raymond Harvey Swyddog Cofrestru ar y 16<sup>eg</sup> Chwefror yn dweud bod rhaid i Cyngor Cymuned Llanbedrog rhoi rhybudd etholiad am 4 sedd wag i fyny ar wefan y Cyngor o 18<sup>fed</sup> Chwefror am wythnos. Ffoniodd y clerc y Swyddog Cofrestru i ddweud wrtho fod 5 sedd wag ar y Cyngor ac nid 4 ac os oedd modd gohirio'r etholiad oherwydd ei fod braidd yn fyr rybudd ond nid oedd y Swyddog Cofrestru yn cytuno i newid y rhybudd o 4 sedd wag i 5 na gohirio'r etholiad. Fe ffoniodd y cadeirydd y Swyddog Cofrestru wedyn i geisio ei newid eto ond ofer fu ei ymdrechion yntau felly bu rhaid rhoi yr hysbyseb i fyny ar y wefan ar y 18<sup>fed</sup> chwefror

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

gyda dyddiad cau o 26<sup>ain</sup> Chwefror. Os ceir mwy na 4 enw fe fydd rhaid cael etholiad sydd ddim yn gwneud synwyr gan fod 5 sedd wag ar y Cyngor a pe byddent yn derbyn 5 enw fe ellir osgoi etholiad gan fod 5 sedd wag. Gan mai'r Swyddog Cofrestru a Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am hyn ac nid y Cyngor Cymuned a bod y Cyngor Cymuned wedi methu newid y penderfyniad nid oes dewis gan y Cyngor Cymuned dim ond cario ymlaen gyda'r cyfarwyddiadau sydd wedi eu rhoi iddynt.

### **11. Awdit**

Dim diweddariad gyda awdit 2019-2020 oherwydd nid oes gan y clerc fynediad i'r bancio ar lein i wneud copiau o'r datganiadau banc y mae ei hangen i egluro cynydd yn y derbyniadau a'r taliadau. Unwaith bydd cerdyn newydd wedi ei yrru i'r clerc fe fydd yn gallu cael mynediad i'r bancio ar lein ac yn gallu cario ymlaen gyda'r pwyntiau sydd angen sylw. Mae'r BDO yn hapus gyda hyn.

Mae'r clerc wedi derbyn rhybudd o ganlyniad archwiliad 2017-2018 a dogfennau eraill gan y BDO yn dweud eu bod wedi gorffen archwiliad 2017-2018 a cyfarwyddiadau i roi y rhybudd ar hysbysfwrdd yn y pentref a'r ffurflen flynyddol ar y wefan i'r cyhoedd gael ei gweld a'i chyflwyno i'r Cyngor iddynt gael ei chymeradwyo. Mae'r BDO am yrru copi PDF i'r clerc drwy e-bost iddi gael ei rhoi ar y wefan cyn gynted a phosibl. Bydd rhaid gyrru copi o'r ffurflen flynyddol i'r aelodau iddi gael ei chymeradwyo yn ffurfiol gan y Cyngor. Cafwyd cais hefyd i'r clerc yrru'r adroddiad i'r aelodau er mwyn iddynt gael cyfle i'w darllen cyn y cyfarfod nesaf ond nid yw honno ar ffurff PDF ychwaith felly mae'r clerc am gysylltu gyda'r BDO i ofyn am gopi ar PDF.

Penderfyniad: Rhoi ffurflen flynyddol ac adroddiad BDO 2017-2018 ar agenda mis nesaf a gyrru copi PDF o'r ddau i'r aelodau cyn y pwyllgor.

### **12. Rhestr Eiddo**

Cafodd bawb gopi wedi ei ddiweddarau gan y clerc sydd bron iawn wedi cael ei orffen. Un o'r eitemau oedd angen ei brisio oedd y 4 blwch halen a cytunwyd ar bris o £90. Eitem arall yw sied yn y cae chwarae a cytunwyd ar bris o £1,500 fel pris prynu a £10,000 i'w yswirio. Cytunwyd ar bris o £500 am y plac carreg filltir a £1,000 am plac agor y lôn Newydd a £10,000 am dir y fynwent newydd. Mae angen newid eraill ar yr eitem dwythaf ar y rhestr i plac a ffens haearn bwrw sydd o amgylch Ffynnon trwy'r Nant.

Mae Cyngor Gwynedd wedi mynd a'r giat uchaf sydd ar lwybr trwy'r nant i ffwrdd i gael ei thrwsio ond nid ydynt wedi dod a hi yn ôl.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i gael diweddariad ar y mater.

Datganodd Andrew Parry bryder ynglŷn â llwybr trwy'r nant gan ei fod yn berygl iawn oherwydd ar ôl y glaw trwm mae'r concrit wedi ei falu ac yn ansefydlog iawn i gerdded arno ac angen ei sortio cyn gynted a phosibl. Mae Andrew Parry am anfon lluniau i'r aelodau.

### **13. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim – cario mlaen i ddefnyddio Zoom.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

### **14. Neuadd y Pentref – Diweddariad**

Gan fod dyletswyddau'r clercc yn cynnwys gwaith Neuadd y Pentref a llenwi ffurflenni blynyddol i'r 'Charity Commission' bydd rhaid i ganran o'i chyflog fynd at y gwaith hwnnw a cytunodd bawb i wneud hynny.

Diweddarodd y clercc fod y trydannwr wedi bod yn rhoi golau uwchben y diffib.

### **Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

### **Taliadau wedi eu Cymeradwyo**

<b>Cyflog y Clerc – Pat Humphreys</b>	<b>£380.33</b>
<b>HMRC – PAYE – Tachwedd 2020 – Ionawr 2021</b>	<b>£217.20</b>
<b>Llanw Llyn – Hysbyseb Swydd</b>	<b>£9.90</b>
<b>Archwilio Cymru – Awdit 2017-2018</b>	<b>£323.40</b>
<b>Zurich Municipal – Yswiriant</b>	<b>£557.13</b>

### **Taliadau wedi eu Derbynn**

<b>Cynnal a Chadw Llwybrau 2020-2021</b>	<b>£570.60</b>
--	----------------

### **Gohebiaeth**

- 1. Clerks & Council Direct – Newyddlen**
- 2. Un Llais Cymru – Hyfforddiant**
- 3. CLILC - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan**
- 4. Llywodraeth Cymru - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth**
- 5. GIG - AP Covid-19**
- 6. Llywodraeth Cymru - Diweddariad - Cofio 2020**
- 7. Llywodraeth Cymru - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC**
- 8. CLILC - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws**
- 9. Panel Annibynnol Cymru - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021**
- 10. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Cylchlythyr Medi 2020**
- 11. Un Llais Cymru - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru**
- 12. Un Llais Cymru – Gwybodaeth am clyw**
  
- 13. Un Llais Cymru - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21**

### **Cais am gyfraniad**

- 1. O Ddrws i Ddrws - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa**
- 2. BOBATH – Canolfan Therapi Plant Cymru**
- 3. Ysgol Llanbedrog – Rhodd i osod polyn fflag**
- 4. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Cais am rhodd.**
- 5. Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie - Cais am gyfraniad**

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 22/02/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19**

6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb** – Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws** – Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd** – Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support** – Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** - Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant** – Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod** – Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru** – Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad
17. **Tenovus** - Helpu Cynnal Gobaith
18. **Tarian Cymru** - Cais am gyfraniad
19. **Ty Gobaith** – Cais am gyfraniad
20. **Calonau Cymru** - Cais am gyfraniad
21. **Marie Curie** – Cais am gyfraniad
22. **O Ddrws I Ddrws** - gario cleifion i apwyntiadau meddygfa, ysbyty, optegydd, chiropodydd ayyb
23. **Cyngor Cymuned Llanengan** – Tlodi Digidol – cyfrannu cyfrifiadur i Ysgol Botwnnog
24. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am gyfraniad
25. **Radio Ysbyty Gwynedd** – Cais am gyfraniad
26. **Ffermwyr Ifanc Eryri** – Cais am gyfraniad
27. **Urdd Gobaith Cymru** – Cais am gyfraniad
28. **Dawns I Bawb** – Cais am gyfraniad
29. **Cymorth Canser Macmillan** – Cais am gyfraniad

Gan fod y rhestr yn mynd yn fwy bob mis penderfynwyd rhoi cyfraniad o £50 yr un i:

O Ddrws i Ddrws

Elusen Ambiwylans Awyr Cymru

Cynorthwyo Nyrsys a Gwasanaethau Lleol Marie Curie

Hosbis Dewi Sant

Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw

Ty Gobaith

Cynnig: William Roger Jones      Eilio: Andrew Parry

Mae'r clerc am fynd ar ôl materion llwybrau a sbwriel erbyn pwyllgor mis nesaf.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 20:53.

**Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •**

**Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •**